Pecyn cymorth

fun palaces

# HYGYRCHEDD

# Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael ei gynnwys yn eich Fun Palace

**Siaradwch â phobl**. Cysylltwch â changhennau lleol Scope, Mencap, Age UK, MIND, Connect the Elderly, a'r rhai sy'n rhedeg gweithgareddau neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau o'ch cwmpas chi. Os nad ydych yn anabl siaradwch â phobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd, pobl anabl, pobl fyddar/Fyddar am gyfrannu fel Makers yn ogystal â chymryd rhan.

**Byddwch yn radicalaidd o hygyrch** – rhowch sylw i gynwysoldeb o'r cychwyn cyntaf - crëwch waith a gweithgareddau y gall pobl eraill gymryd rhan ynddynt. A allech chi ofyn i fyfyriwr BSL lleol ddehongli i chi ar y diwrnod? A allent ddysgu pobl eraill yn eich Fun Palace i arwyddo pethau syml? Allwch chi ddod o hyd i rywun a allai roi lifft i bobl yn yr ardal leol y byddent yn cael defnyddio cludiant cyhoeddus yn anodd? Rhagweithiol a radicalaidd o hygyrch:

- Ydych chi wedi ystyried creu gwaith dros a gyda grwpiau penodol, neu ei drosglwyddo i'r grwpiau hynny ei greu dros bobl eraill? E.e. gall gemau hel atgofion, gweithgareddau garddio a cherddoriaeth fod yn eithriadol o fuddiol i bobl sydd â dementia.
- Mae blog gwych gennym gan Annie Bannister am greu gardd synhwyraidd
- Mae gan Mencap ganllaw da ar gyfathrebu â phobl sydd ag anabledd dysgu
- Ysgrifennodd Age UK flog gwych i ni 'Pump Awgrymiad Gwych ar greu Fun Palace Gyda a Thros Bobl Hŷn'
- Mae gan Creative Lives rai adnoddau gwych hefyd gan gynnwys Rhestr Wirio Digwyddiadau: anableddau a mynediad a Chroesawu pobl sydd ag anableddau dysgu

**Un peth sy'n hawdd ei addasu yw eich deunyddiau printiedig** – o

fun palaces

**arwyddion i nodiadau rhaglen**, yn aml maent yn rhy eiriog ac yn defnyddio ffont bychan.
Meddyliwch am ble mae arwyddion yn cael eu gosod, math a maint y ffont mewn taflenni a chynhyrchu fersiwn print bras ar gyfer y rhai y maent yn ei ffafrio neu y mae ei angen arnynt.

Dyma ganllaw byr gan yr Ymddiriedolaeth Synhwyraidd ar fathau o ffontiau a meintiau yma a rhai adnoddau gwych yma gan y Gymdeithas Dylunio Arwyddion.

**Poster Hygyrch**
Rydym wedi creu poster hygyrch i'w ddefnyddio ochr yn ochr â phosteri Fun Palaces eraill, fel y gallwch roi gwybod i bobl am eich Fun Palace. Gallwch ei lawrlwytho yma. Cofiwch lenwi'r blychau â llawysgrifen glir a chryno neu, yn ddelfrydol, argraffwch labeli i'w rhoi yn y blychau. Neu os ydych chi'n fwy clyfar gyda thechnoleg ac eisiau golygu eich poster yn Canva (gallwch ychwanegu'r holl fanylion am eich Fun Palace) gallwch wneud hynny yma.

Mae safonau y dylai gwefannau eu dilyn, sydd wedi'u crynhoi'n yma ar wefan gov.uk, a gall pethau bychain wneud gwahaniaeth mawr – fel ychwanegu disgrifiadau at dagiau 'alt' delweddau allweddol fel y gall darllenyddion sgrîn eu disgrifio.

Os ydych yn cynhyrchu cynnwys fideo ac yn ei uwchlwytho, mae gan **YouTube nodwedd isdeitlau syml** sy'n golygu y gallwch roi isdeitlau ar bopeth rydych yn ei uwchlwytho - mae cyfarwyddiadau clir iawn ar gael yma.

**Ceisiwch fod yn eglur ynghylch pa mor hygyrch y mae eich lleoliad**: gwiriwch yr hanfodion; toiledau hygyrch, coridorau eang, goleuo da, arwyddion clir, byrddau y gall cadeiriau olwyn gyda chynalyddion breichiau ffitio oddi tanynt, seddau i'r rhai na allant sefyll am amser hir. A oes system dolen glyw? Mynediad ar ramp? A allech chi hurio ramp

neu system dolen glyw ar gyfer pobl sydd â chymhorthion clywed, neu ofyn i ddarparwr dolenni clyw neu rampiau roddi system/ramp ar gyfer diwrnod y Fun Palace?

**Meddyliwch yn weithredol am sut mae pobl eraill yn cael mynediad i'ch gweithgareddau, eich adeilad a'ch deunyddiau printiedig ac ar-lein:** bydd ychydig o feddwl ac amser ar eich rhan chi'n gwneud gwahaniaeth enfawr i rywun arall. Cofiwch ddirprwyo os gallwch - dewch o hyd i rywun sydd ag amser i ymgymryd â'r un dasg yma, gofynnwch o gwmpas i weld a oes unrhyw therapyddion galwedigaethol, neu athrawon sy'n arbenigo mewn anghenion arbennig, neu weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn eich rhwydweithiau a fydd eisoes yn gwybod am y materion hyn, y byddant efallai yn barod i helpu.

**Toiledau Pob Rhyw**: Mae llawer o leoliadau bellach yn symud tuag at doiledau niwtral o ran rhywedd, neu o leiaf cael un toiled wedi'i ddynodi'n niwtral o ran rhywedd. Mae hyn yn sicrhau bod pobl draws ac anneuaidd yn teimlo bod croeso iddynt yn eich gofod.

**Rhywle Tawel:** Gall Fun Palaces fod yn fwrlwm o weithgareddau egnïol ac ar adegau'n dryblith llwyr. Mae hyn yn wych! I rai pobl niwroamrywiol, gall fod yn llawer iawn o fewnbwn synhwyraidd, a all fod llethol iddynt. Ydych chi'n gallu creu ystafell, gofod, neu barth tawel yn eich Fun Palace i bobl gael saib am ddeg munud os oes angen? Gofod heb sŵn, bwrlwm a gormod o fewnbwn gweledol (annibendod / posteri / gwaith celf ac ati). **Uwchlaw popeth, cofiwch mai nod Fun Palaces yw creu gyda yn hytrach nag ar gyfer.**